

DOLEN Y TAB – 35

18–19 RHAGFYR 2020

OEDFA BORE SUL 20 RHAGFYR

Rhaglen amrywiol o gerddi, sylwadau, storïau, caneuon ac atgofion i ddathlu Gŵyl y Nadolig, wedi eu casglu a'u trefnu gan Rhiannon a Gareth Humphreys.

OEDFAON Y SULIAU NESAF

Rhagfyr 2020

27 Oedfa i dawelu ar ddiwedd blwyddyn yng nghwmni Geraint Wyn.

Ionawr 2021

3 Y Parchg. Aled Edwards.

10 Yng ngofal Geraint Rees.

17 Oedfa Deuluol yng nghwmni'r Teulu Morse.

Hefyd ar 20 Rhagfyr . . .

10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb

Y Parchg. Rhodri Glyn Thomas, Sanclêr – Adfent 4 (Ar gael ar wefan yr Undeb annibynwyr.org a [YouTube](https://www.youtube.com/watch?v=...))

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Enid Morgan, Aberystwyth – ym Methlehem.

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Yna dros Wyl y Geni:

25 Rhagfyr (Dydd Nadolig)

11.00 Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol
Oedfa arbennig yng ngofal Dafydd Iwan.

12.00 Oedfa Radio Cymru

Criw'r Tabernacl Caerdydd – y geni.

27 Rhagfyr

11.00 Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Oedfa arbennig yng ngofal Dafydd Iwan.
(*Ail ddarllediad o oedfa ddydd Nadolig*)

12.00 Oedfa Radio Cymru

Matthew Rees, Caerdydd – ffoi i'r Aifft.

Tafod y Tab

Daeth yr amser unwaith yn rhagor i wahodd cyfraniadau i rifyn Ionawr o *Tafod y Tab*. Yn ôl ein harfer byddwn yn croesawu adroddiadau a lluniau ac unrhyw eitemau eraill fyddai'n addas i'w cynnwys yn y *Tafod*. Dylid anfon cyfraniadau at Gwilym ac Eleri (gehpengwern@yahoo.co.uk) **erbyn Dydd Iau 21 Ionawr**.

CASGLIADAU 2020

Erbyn i chi ddarllen *Y Ddolen*, bydd John Llew – drwy gydweithrediad parod a llawen Jason Edwards – wedi trefnu i ddanfôn llwythi o ddillad a dillad gwely i bencadlys *Pobl*, elusen sy'n helpu pobl ddigartref, ym Mhontypridd.

Bydd llochesi lleol Cymorth i Ferched Cymru hefyd wedi derbyn cyflenwad helaeth o ddanteithion Nadolig, ynghyd â siec am £700 o gronfa ein casgliad amlenni brown. Mae nhw'n derbyn ein cyfraniad yn gynnar er mwyn prynu anrhegion Nadolig i'r plant yn eu gofal.

Bydd Gofalwyr Ifanc RhCT, Cwtch, ac Ysgol Tŷ Coch yn derbyn eu cyfran nhw ddechrau'r flwyddyn, fel arfer. Yr un modd, bydd cyfraniad arall yn mynd i Fanc Bwyd Taf Elái. Mae casgliad y Banc Bwyd yn dal yn weithredol, a bydd hysbysiad yn *Y Ddolen* ym mis Ionawr am elusennau amlenni brown 2021.

Roedd y casgliad Talebau Nadolig yn uwch nag erioed, a hynny'n ein galluogi ni i roi gwerth £620 o dalebau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pobol ifanc sy'n gadael gofal, a gwerth £800 at deganau plant, gan na fu'n bosib iddyn nhw gynnal y *Santa Appeal* arferol eleni.

Mewn cyfnod dirdynol o anodd i bawb sydd mewn angen, gobeithio bydd y rhoddion hyn yn dod â rhywfaint o lawenydd a gobaith y Nadolig i'w bywydau. Mae haelioni aelodau a chyfeillion y Tabernacl yn ddihysbydd, ac yn ein hatgoffa ni y gall unrhyw un wneud gwahaniaeth bach, waeth pa mor amhosib yr ymddengys hynny'n aml.

DIOLCH YN FAWR IAWN

**NADOLIG DEDWYDD A DIOGEL I CHI I GYD,
A BLWYDDYN NEWYDD LLAWN GOBATH**

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Dalier Sylw

Gan y bydd yn ddydd Nadolig wythnos i heddiw, ni chynhyrchir rhifyn o *Dolen y Tab* yr wythnos nesaf. Dyddiad cyhoeddi'r rhifyn nesaf fydd dydd Gwener 2 Ionawr 2021. Yn y cyfamser, dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Diolchiadau Diwedd Blwyddyn

Ar ddiwedd blwyddyn gythryblus iawn yn ein hanes, mae'n briodol ein bod yn manteisio ar y cyfle hwn, cyn ffarwelio â 2020, i ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cyfrannu at waith yr eglwys dros y 12 mis a aeth heibio. Mae'n wir na lwyddwyd i gynnal yr un oedfa yn y Tabernacl o ganol mis Mawrth ymlaen, ond ar waetha hynny fe lwyddwyd i gadw fflam yr achos ynghynn.

Yn ddi-os, y siom fwyaf i lawer ohonom oedd na chawsom gyfle i ddathlu pen-blwydd 150 ail-adeiladu'r capel yn 1870 gyda'n gilydd ddechrau Gorffennaf fel roeddem wedi'i ddymuno. I



athrawon a phlant yr Ysgol Sul, ac arweinwyd ac aelodau'r Twmiaid, roedd colli'r profiad o gwrdd yn wythnosol yn ergyd llawer mwy. Does ond gobeithio, felly, y bydd modd i ni ddychwelyd gyda'n gilydd i'r Tabernacl unwaith yn rhagor erbyn y gwanwyn.

Ond serch y drysau caeedig a'r ymbellhau cymdeithasol, llwyddwyd i gyflawni llawer o'n hamcanion a'n dyheadau fel eglwys – a hynny'n bennaf trwy ddyfalbarhad ein cymuned gref o wirfoddolwyr cydwybodol oedd yn gwbl benderfynol nad oedd cyfyngiadau'r pandemig yn rheswm dros laesu dwylo i hyrwyddo dysgeidiaeth yr Iesu trwy ein gweithredoedd. Hwyluswyd pob elfen – o gyflwyno oedfaon, lledaenu gwybodaeth am yr ymgyrchoedd elusennol amrywiol, ynghyd â rhannu lluniau, cerddi a chaneuon, heb sôn am gyhoeddi'r llyfryn lliwgar *Dathlu'r 150* – trwy fanteisio i'r eithaf ar y dechnoleg ddigidol.

Ar waetha'r heriau di-ri dros y naw mis diwethaf, fe gafwyd sawl uchafbwynt cofiadwy eleni fel yn y blynyddoedd a fu. Daw cyfle eto i ni ail-fyw rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn y lluniau a'r adroddiadau fydd i'w gweld yn rhifyn Ionawr o *Tafod y Tab*. Yn y cyfamser, gallwch fanteisio ar y cyfle dros yr ŵyl i ail-wylio rhai o oedfaon y misoedd diwethaf ar wefan yr eglwys:

www.tabernacl.org

Goleuo'r Tabernacl



Diolch yn fawr i Jason Edwards a'r teulu, Parc Nant Celyn, am ofalu nad yw'r Tabernacl mewn tywyllwch dros

ŵyl y geni eleni, gan iddynt brynu a gosod goleuadau y tu allan i'r capel. Rydym yn ddyledus iawn iddynt hefyd am eu cynnig hael i gludo'r llwythi o ddillad a dillad gwely a gasglwyd gan yr aelodau a'r pentrefwyr dros yr wythnosau diwethaf ar gyfer y digartref yn ardal Pontypridd. Os cewch gyfle, cofiwch fynd draw i Efail Isaf i edmygu'r goleuadau.

Apêl

Os oes rhywrai fyddai'n fodlon cyfrannu at oedfaon 2021, plis wnewch chi gysylltu gyda Geraint Rees.

Mae angen pob talent arnom i gynnal y llif o amrywiaeth ar gyfer ein Suliau.

Diolch yn fawr.

Rhown y gair olaf i'n Trysorydd...

A ninnau ar fin ffarwelio â'r flwyddyn 2020, carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i bawb a ofalodd am anfon eu cyfraniadau dros y 12 mis diwethaf. Hefyd, hoffwn atgoffa pawb y bydd y llyfrau'n cau am eleni ar 31 Rhagfyr. I'r rhai sydd heb gyfrannu, neu am gyfrannu rhagor, dylid anfon sic wedi ei chyflwyno i *Capel y Tabernacl Cyf*. at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Pan fyddwch yn anfon ataf i'n uniongyrchol, rhowch y sic mewn amlen wen neu frown gan nodi eich rhif aelodaeth. Ond mae'n bosib hefyd gwneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel gan nodi 'Amlenni Gwyn' neu 'Amlenni Brown' ynghyd â nodi'ch rhif aelodaeth:

Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.

Cod didoli: 30 – 96 – 72

Rhif y cyfrif: 03607499

Cofiwch, yn groes i'r drefn arferol, na fyddwn yn argraffu amlenni pwrpasol ar gyfer 2021. Yn hytrach, gofynnir i chi ddefnyddio'r amlenni sy'n sbâr o eleni. Os na fydd digon o amlenni gennych, yna medrwyd gyflwyno eich cyfraniadau mewn amlenni cyffredin gan gofio nodi eich rhif aelodaeth ac ysgrifennu ar yr amlen ai i gronfa'r eglwys neu i gronfa elusennau y bwriedir y cyfraniad.

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel. Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpenqwm@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.